**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru – Wedi'i Gadarnhau**
**05 Mai 2022 am 09:00 dros Microsoft Teams**

Wedi'i Gadarnhau

| **Presennol** | | |
|---|---|---|
| Dyfed Edwards | (DE) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol |
| **Hefyd yn Bresennol:** | | |
| Robert Bailey | (RB) | Cynrychiolydd Undeb Llafur |
| Rhiannon Beaumont-Wood | (RBW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Liz Blayney | (LB) | Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd |
| Helen Bushell | (HB) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd |
| Paul Dalton | (PD) | Pennaeth Archwilio Mewnol, Gwasanaethau Archwilio Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| Angela Fisher | (AF) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid |
| Huw George | (HG) | Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |
| Claire Green | (CG) | Uned Cyflawni Cyllid (eitem 22/2022) |
| Ramim Khan | (RK) | Archwilio Cymru |
| Neil Lewis | (NL) | Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl (eitem 23.3) |
| Clare James | (CJ) | Archwilio Cymru (eitem 26) |
| Lucy Jugessur | (LJ) | Rheolwr Archwilio Cyllid, Gwasanaethau Archwilio Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru *(rhan o'r cyfarfod)* |
| Jane Matthews | (JM) | Pennaeth Adrodd Ariannol a Rheolaeth, Cyllid |
| Stacey Taylor | (ST) | Uned Cyflawni Cyllid (eitem 22/2022) |

| | | |
|---|---|---|
| Verity Winn | (VW) | Archwilio Cymru |

| **Ymddiheuriadau:** | | |
|---|---|---|
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Andrew Cottom | (AC) | Ymgynghorydd Annibynnol |
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd |
| | | |
| **Ysgrifenyddiaeth** | | |
| Reanne Reffell | (RR) | Swyddog Cymorth y Bwrdd |

Dechreuodd y cyfarfod am 09:00

**ACGC 20/2022 Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Agorwyd y cyfarfod gan DE, a groesawodd pawb a oedd yn bresennol a nodi, oherwydd yr ymateb parhaus i'r pandemig COVID-19 ac oherwydd y canllawiau cenedlaethol a oedd ar waith, bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn electronig.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio er mwyn cefnogi cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cyfnodion yn y cyfarfod nesaf ym mis Mehefin 2022.

**Nodwyd** yr ymddiheuriadau am absenoldeb.

**ACGC 21/2022 Datgan Buddiannau**

Datganwyd buddiant yn eitem 23.3., Adroddiad Drafft ar Dâl a Chydnabyddiaeth 2021-22, gan y Cyfarwyddwyr Anweithredol, y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Ysgrifennydd y Bwrdd.

**ACGC 22/2022 Cyrff sy'n cael eu Lletya – Uned Cyflawni Cyllid**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uned Cyflawni Cyllid – Adroddiad Sicrwydd Blynyddol i'r Pwyllgor (Cyf: 3.1 ACGC 2022_05_05).

Rhoddodd ST a CG drosolwg o adroddiad blynyddol yr Uned Cyflawni Cyllid, gan gadarnhau eu bod yn cydymffurfio â'r meysydd angenrheidiol. Aethant ymlaen i ddiolch i'r Sefydliad am ei gefnogaeth gyda'r newidiadau sefydliadol yn yr Uned Cyflawni Cyllid ac ehangu'r gweithlu.

Ymchwiliodd y Pwyllgor i botensial cynnal sesiwn graffu fanwl ar gyrff sy'n cael eu lletya gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nodwyd bod y Pwyllgor wedi ystyried adroddiad am bartneriaethau a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn y gorffennol. Cytunodd HG i rannu brîff a fyddai'n amlinellu'r trefniadau lletya, y trefniadau llywodraethu mewn perthynas â hyn, ac unrhyw wybodaeth ddefnyddiol arall i gefnogi dealltwriaeth aelodau'r Pwyllgor o'r broses a sut y bu i'r Ymddiriedolaeth gyflawni ei Hymrwymiadau. Byddai trafodaethau pellach yn cael eu trefnu wedyn yn ôl yr angen.

**Camau gweithredu: HG**

Wedi'i Gadarnhau

Diolchodd aelodau'r Pwyllgor i ST a CG am eu cyflwyniad a chawsant **sicrwydd** bod yr Uned Cyflawni Cyllid wedi cydymffurfio â'r cytundeb lletya, fel y nodwyd yn y cytundeb cynhaliaeth.

**ACGC 23/2022 Adroddiad Blynyddol**

**ACGC 23.1/2022 Cyfrifon Drafft 2021 /22**

Cyflwynwyd y cyfrifon blynyddol drafft ar gyfer 2021-22 i'r Pwyllgor (Cyf: 4.2 ACGC_2022_05_05).

Wrth gyflwyno'r cyfrifon blynyddol drafft, dywedodd HG ei fod yn cadarnhau bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyflawni ei ddyletswyddau ariannol. Aeth JM ymlaen i gyflwyno'r cyfrifon gan amlinellu: perfformiad o ran y targedau allweddol; canfyddiadau archwiliad 2020-21; y camau nesaf a dyddiadau allweddol.

Cyflwynodd DE gwestiwn gan Gadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru am y rhesymeg dros safbwynt yr Archwilydd Cyffredinol ar atebolrwydd treth clinigwyr y GIG. Dywedodd RK fod gwahanol farn gan archwilwyr cyffredinol ynghylch ei afreoleidd-dra. Dywedodd MM y gellid cryfhau'r geiriad a'r eglurhad er mwyn egluro hyn yn llawn o fewn y cyd-destun.

Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau ar gymhlethdod y flwyddyn ariannol ddiwethaf mewn perthynas â chaffael a'r cynnydd sylweddol yn y gweithlu oherwydd y pandemig. Nodwyd bod strategaeth y Gyllideb yn ceisio mynd i'r afael ag unrhyw bwyntiau i'w dysgu ar gyfer y dyfodol ac y byddai cynlluniau cyllid diwygiedig yn mynd i'r afael â thanwariant a gorwariant yn ystod y flwyddyn, dwy reoli costau Covid a buddsoddiadau.

Diolchodd aelodau'r Pwyllgor i'r tîm cyllid am ymdrin â chyllid Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â'i waith ar ddiwedd y flwyddyn. Cafodd aelodau'r Pwyllgor eu hannog i gysylltu â'r tîm cyllid gydag unrhyw sylwadau neu ymholiadau am y cyfrifon blynyddol drafft.

**ACGC 23.2/2022 Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22 Drafft**

Rhoddwyd trosolwg i'r Pwyllgor o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft (Cyf: 4.2 ACGC 2022_05_05)

Dywedodd aelodau'r Pwyllgor fod y datganiad wedi'i lunio'n dda a'i fod yn ddiddorol. **Derbyniodd** yr aelodau'r adroddiad drafft i'w gyflwyno i Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru i'w adolygu.

**ACGC 23.3/2022 Adroddiad Drafft ar Dâl a Chydnabyddiaeth 2021/22**

Rhoddwyd trosolwg i'r Pwyllgor o'r Adroddiad Drafft ar Dâl a Chydnabyddiaeth 2021/22, (Cyf. 4.2 ACGC_2022_05_05) gan NL.

Wedi'i Gadarnhau

Ystyriodd y Pwyllgor y cynnydd yn y gwariant ar recriwtio ymgynghorwyr. Nodwyd bod hyn yn gysylltiedig â chostau anghylchol am arbenigedd yn y maes digidol a chostau cylchol i helpu i ymgorffori'r gwaith gwella. Cafodd y gwasanaethau hyn eu caffael drwy dendr agored.

Myfyriodd y Pwyllgor ar y costau asiantaeth a oedd yn gysylltiedig â COVID, gan nodi bod y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl yn cadw golwg ar yr heriau sy'n gysylltiedig ag adnoddau recriwtio.

**Derbyniodd** y Pwyllgor yr adroddiad drafft, i'w gyflwyno i Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru i'w adolygu.

| **ACGC 23.4/2022** | **Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol - Barn ac Adroddiad Blynyddol 2021/22** |
| --- | --- |

**Derbyniodd** y Pwyllgor yr adroddiadau canlynol (Cyf: 4.4 ACGC 2022_05_05):

- Adroddiad terfynol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar Reoli stoc (sicrwydd sylweddol)
- Adroddiad terfynol y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar Gronfa Risg Cymru (sicrwydd rhesymol)
- Adroddiad drafft ar Farn Pennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol

Cadarnhaodd PD fod y sgôr risg gyffredinol ar gyfer y sefydliad yn rhesymol, a bod hyn yn adlewyrchu statws yr archwiliadau a gynhaliwyd drwy gydol 2021-22. Ystyriodd y Pwyllgor ddulliau o gyflawni gwelliannau pellach, gan gydnabod pwysigrwydd parhau i fod yn wyliadwrus mewn meysydd allweddol fel diogelwch data.

| **ACGC 24/2022** | **Rheoli Risgiau** |
| --- | --- |
| **ACGC 24.1/2022** | **Adolygiad Blynyddol o'r Fframwaith Risgiau/Cynllun Datblygu Risgiau** |

Cyflwynwyd y Cynllun Datblygu Rheoli Risgiau i'r Pwyllgor (Cyf: 5 ACGC 2022_05_05).

Cyflwynodd RBW y cynllun: gan amlinellu crynodeb o'r amcanion lefel uchel; nodi bod y Tîm Busnes Gweithredol yn mynd i ystyried cynllun cynnydd manylach ar gyfer blwyddyn un, a bod y Bwrdd wedi cynnal sesiwn am barodrwydd i dderbyn risg, ac roedd hyn wedi'i gynnwys yn y gwaith hwn.

Ystyriodd y Pwyllgor:

- A oedd parodrwydd ar draws y sefydliad i dderbyn risg, sut yr oedd hyn yn cyd-fynd â'r cynllun strategol a sut y gellid ei weithredu. Dywedodd RBW y byddai Iain Bell yn gweithio gyda'r tîm arwain i ymgorffori proses rheoli risgiau ac y byddai risgiau yn cael eu mesur yn erbyn y Cynllun Tymor Canolig Integredig ac yn cael eu hystyried ochr yn ochr ag adolygiad o'r Strategaeth Hirdymor.

Wedi'i Gadarnhau

- Y gwaith ar reoli brand a'r risgiau mewn perthynas â chanfyddiadau'r cyhoedd a sut yr oedd hyn yn cysylltu â'r fframwaith risgiau corfforaethol a strategol. Cytunodd RB-W a HG i edrych ar hyn wrth adolygu'r themâu strategol.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** am y system o reoli risg o fewn y sefydliad.

| **ACGC 25/2022** | **Llywodraethu ac Atebolrwydd** |
|---|---|
| **ACGC 25.1/2022** | **Llywodraethu a Throsolwg y Pwyllgor o Archwiliad 2022/23** |

Cyflwynwyd y Protocol Archwilio a Chynllun Gweithgaredd Archwilio Mewnol ac Allanol ar gyfer 2022-23 i'r Pwyllgor (Cyf: 6.1 ACGC 2022_05_05).

Cyflwynodd HB yr adroddiad, gan ddweud bod y Protocol yn cynnig eglurder ynghylch derbyn adroddiadau archwilio, rôl y Pwyllgor archwilio a rôl Pwyllgorau eraill, lle roedd yr adroddiadau hynny'n ymwneud â'u cylch gorchwyl nhw. Roedd y Protocol yn cynnig rôl fwy grymus i'r Tîm Gweithredol o safbwynt monitro ymateb rheolwyr i ganfyddiadau'r archwiliad a byddai'n cael ei dreialu am gyfnod o 12 mis.

Ystyriwyd rôl y Pwyllgor a'r Bwrdd o ran craffu ar gyfrifon, a phwysleisiwyd er bod gan bawb ar lefel y Bwrdd gyfrifoldeb i ddeall y cyfrifon, mai'r defnydd gorau o amser y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol oedd trafod materion neu feysydd penodol a oedd yn peri pryder i'r Bwrdd.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor y Protocol drafft ar adrodd a goruchwylio Swyddogaethau Mewnol ac Allanol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Atodiad 1).

| **ACGC 25.2/2022** | **Adolygiad o Effeithiolrwydd y Pwyllgor** |
|---|---|

Ystyriodd y Pwyllgor gyflwyniad ar Adolygiad o Effeithiolrwydd y Pwyllgor (Cyf: 6.2 ACGC 2022_05_05).

Amlinellodd LB grynodeb o'r materion thematig ar draws yr holl Bwyllgorau ac yn benodol y rhai ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol.
**Derbyniodd** y Pwyllgor yr adroddiad.

| **ACGC 25.3/2022** | **Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor** |
|---|---|

Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad yn amlinellu Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor ar gyfer 2021-22 (Cyf: 6.3 ACGC 2022_05_05) ac yn crynhoi'r prif feysydd gweithgarwch busnes a gyflawnwyd.

**Cymeradwyodd** y Pwyllgor yr adroddiad i'w gyflwyno i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ar 26 Mai 2022 er **sicrwydd** bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn addas at y diben a'i fod yn gweithredu'n effeithiol wrth gyflawni ei gylch gorchwyl.

Wedi'i Gadarnhau

**ACGC 25.4/2022 Adolygiadau o Gylchoedd Gorchwyl**

Cyflwynwyd Cylch Gorchwyl y Pwyllgor i'r Pwyllgor (Cyf: 6.4 ACGC.2022.05.05).

Ystyriodd y Pwyllgor y newidiadau arfaethedig i gylch gorchwyl y Pwyllgor gan **gytuno i argymell** y cylch gorchwyl diwygiedig i'r Bwrdd ei gymeradwyo.

**ACGC 25.5/2022 Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn codi**

Cyflwynwyd cofnodion a chofnod o gamau gweithredu'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2022 i'r Pwyllgor (Cyf: 6.5 ACGC_2022_05_05).

**Cymeradwywyd** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2022, fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod.

Ystyriodd y Pwyllgor ddiweddariadau ar ddwy eitem agored yn y cofnod o gamau gweithredu:

- Cam Gweithredu ACGC 15/2022: Cytunodd RBW i fynd ar drywydd pryderon ynghylch effaith yr Ymchwiliad Cyhoeddus i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a'r goblygiadau o ran adnoddau, fel rhan o'r Adroddiad Llywodraethu Gwybodaeth a fyddai'n cael ei drafod yng Nghyfarfod y Tîm Busnes Gweithredol ym mis Mehefin. **Cymeradwyodd** y Pwyllgor y dyddiad targed diwygiedig, sef Mehefin 2022.
- Cam Gweithredu ACGC 16/2022: Edrychodd y Pwyllgor ar gynnwys arfaethedig y sesiwn graffu fanwl ar Seiberddiogelwch ym mis Medi, gan nodi ei bod yn canolbwyntio ar systemau mewnol a systemau Cymru Gyfan yn y drefn honno. Byddai cwestiynau ynghylch diogelwch data'r sefydliad a gedwir gan sefydliadau allanol yn rhan o'r gwaith Llywodraethu Gwybodaeth a gaiff ei oruchwylio gan gan y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd.

**ACGC 26/2022 Gwasanaeth Archwilio Allanol**

**ACGC 26.1/2022 Cynllun ICC 2022 gan Archwilio Cymru**

Cyflwynwyd Cynllun Archwilio 2022 Archwilio Cymru i'r Pwyllgor (Cyf: 7.1 ACGC 2022_05_05) ac fe'i ystyriwyd.

Fe wnaeth y Pwyllgor sylw am y bartneriaeth adeiladol gydag Archwilio Cymru a'r gwerth yr oedd yn ei roi i'r sefydliad.

Cyflwynodd DE, Cadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru gwestiwn am ffioedd Archwilio Cymru am y flwyddyn. Dywedodd VW fod hyn yn bennaf oherwydd yr archwiliad o berfformiad a'r pynciau thematig Cymru Gyfan a oedd wedi galw am arbenigedd ychwanegol. Dywedodd CJ mai dim ond am y gwaith a gyflawnwyd y codir tâl ar y sefydliad. Diolchodd DE i gydweithwyr yn Archwilio Cymru am yr eglurhad a chytunodd i gyfleu'r ymateb i Jan Williams ac i drafod hyn y tu allan i'r cyfarfod.

Wedi'i Gadarnhau

Nododd CJ farn afreoleidd-dra yr archwilydd cyffredinol ynghylch pensiynau. Cyfeiriwyd at y drafodaeth uchod gan y Pwyllgor gan ailadrodd eto yr angen i gryfhau geiriad yr eglurhad.

**ACGC 27/2022 Eitemau i'w Nodi**

**ACGC 27.1/2022 Cyllid, Caffael ac Atal Twyll**

**Nododd** y Pwyllgor yr adroddiadau canlynol (Cyf: 8.1 ACGC 2022_05_05:

- 8.1a Diweddariad Chwarterol ar Atal Twyll
- 8.1b Cynllun Blynyddol ar Atal Twyll
- 8.1c Colledion a Thaliadau Arbennig
- 8.1d Adroddiad Caffael

**ACGC 27.2/2022 Archwilio Mewnol, Allanol a Chlinigol**

**Nododd** y Pwyllgor yr adroddiadau canlynol (Cyf: 8.2 ACGC 2022_05_05):

- 8.2a Diweddariad ar Gynnydd Archwilio Cymru
- 8.2b Cynllun Archwilio Ansawdd a Chlinigol 2021/22

**ACGC 27.3/2022 Rheoli Risgiau**

**Nododd** y Pwyllgor y Gofrestr Risgiau Corfforaethol (Cyf: 8.3 ACGC 2022_05_05).

**ACGC 27.4/2022 Llywodraethu ac Atebolrwydd**

**Nododd** y Pwyllgor Gynllun Gwaith Blynyddol y Pwyllgor 2022-23 (Cyf: 8.4 ACGC 2022_05_05).

**ACGC 28/2022 Materion Gweinyddol i Gloi**

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddydd Mawrth 7 Mehefin 2022 am 13:00, yn Ystafell 3.7 Iechyd Cyhoeddus Cymru, Capital Quarter a thros Microsoft Teams

**Nododd** y Pwyllgor y byddai holl bapurau'r Pwyllgor yn cael eu cyhoeddi ac **eithrio**:

- Cyfrifon Blynyddol Drafft
- Colledion a Thaliadau Arbennig
- Adroddiad Caffael
- Risgiau Strategol
- Golygiad o i gofnodion cyfarfod 16 Mawrth 2022 mewn perthynas â dileu stoc a cholledion. Ar ôl i'r cyfrifon gael eu cyhoeddi bydd y cofnodion yn cael eu golygu a'u cynnwys.

Diolchodd DE i bawb am eu cyfraniadau yn ystod y cyfarfod. Ystyriwyd y cyfarfod gan y mynychwyr a rhoddwyd adborth.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:00

Wedi'i Gadarnhau